***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2367 (Cy. 230)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Medi 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Medi 2014.

### Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) dilëer y diffiniad o "cnydau âr" ("*arable crops*");

(**1**) O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(**3**) O.S. 2014/1835 (Cy. 189).

(b) yn y diffiniad o "dosbarthiad rhanbarthau talu dros dro" ("*provisional payment region classification*"), ar ôl "parsel cyfeirio" pan fo'n ymddangos am y tro cyntaf mewnosoder ", neu ardal o dir o fewn parsel cyfeirio,";

(c) ar ôl y diffiniad o "dosbarthiad rhanbarthau talu dros dro" ("*provisional payment region classification*") mewnosoder—

"ystyr "llystyfiant ucheldirol lled-naturiol" ("*semi-natural upland vegetation*") yw'r rhywogaethau hynny a restrir yn yr Atodlen;".

(3) Yn rheoliad 3(2)—

(a) yn lle paragraff (c) o'r diffiniad o "rhostir" ("*moorland*") rhodder—

"(c) y mae 50% neu fwy ohono'n llystyfiant ucheldirol lled-naturiol, neu'n gerrig brig a llystyfiant ucheldirol lled-naturiol a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori garw."

(b) dilëer paragraff (d) o'r diffiniad o "rhostir" ("*moorland*");

(c) dilëer paragraff (e) o'r diffiniad o "rhostir" ("*moorland*");

(d) yn y diffiniad o "yr ardal dan anfantais ddifrifol" ("*the severely disadvantaged area*"), ar ôl "tir" rhodder "nad yw'n rhostir ac".

(4) Yn lle'r Atodlen (Rhywogaethau Amaethyddol Wedi eu Gwella) rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd,
o dan awdurdod y Gweinidog Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o
Weinidogion Cymru

5 Medi 2014

## YR ATODLEN

Rheoliad 2(1)

Rhywogaethau o lystyfiant ucheldirol lled-naturiol

| | |
|---|---|
| Maeswellt | (*Agrostis spp.)* |
| Peisgwellt | (*Festuca spp*.) |
| Brigwellt main | (*Deschampsia flexuosa*) |
| Llwydwellt y calch | (*Sesleria albicans*) |
| Glaswellt y gweunydd | (*Molinia caerulea*) |
| Cawn du | (*Nardus stricta*) |
| Rhedyn ungoes | (*Pteridium aquilinum*) |
| Grug | (*Calluna vulgaris; Erica spp*.) |
| Llus | (*Vaccinium myrtillus*) |
| Creiglus | (*Empetrum nigrum*) |
| Eithin | (*Ulex spp.*) |
| Plu'r gweunydd | (*Eriophorum spp*.) |
| Clwbfrwyn y mawn | (*Trichophorum cespitosum*) |
| Brwyn troellgorun | (*Juncus squarrosus*) |
| Migwyn | (*Sphagnum spp*.) |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1835) (Cy. 189) ("y Prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio rheoliad 2(1) o'r Prif Reoliadau drwy ddileu'r diffiniad o gnydau âr, diwygio'r diffiniad o ddosbarthiad rhanbarthau talu dros dro a mewnosod diffiniad o lystyfiant ucheldirol lled-naturiol.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio'r diffiniadau o rostir ac ardal dan anfantais ddifrifol yn y Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(4) yn rhoi Atodlen newydd sydd â rhestr o rywogaethau o lystyfiant ucheldirol lled-naturiol yn lle Atodlen y Prif Reoliadau.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol o effeithiau'r Rheoliadau hyn ar gostau busnes, mewn perthynas â busnesau fferm yng Nghymru, wedi ei baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau ohono oddi wrth yr Adran Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.